Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanarth
# Llannarth
# Ceredigion
# SA47 0NP

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/01/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Llanarth rhyw bedair milltir i'r de o Aberaeron yng Ngheredigion ac yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion ar ddechrau'r mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Ar hyn o bryd, mae 69 o ddisgyblion amser llawn yn yr ysgol ac yn y Feithrinfa Gymunedol (Dechrau'n Deg) mae yna 10 disgybl rhan amser. Addysgir y disgyblion gan bedwar athro a phump cymhorthydd amser llawn ynghyd ag athrawes gefnogol llythrennedd am 2.5 diwrnod yr wythnos.

Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr ysgol ac anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Uwchradd Aberaeron ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Daw 28% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae canran y disgyblion o gefndir ethnig yn fychan iawn ac yn is na chanran yr awdurdod lleol.

Mae o gwmpas 34% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae hyn yn uwch na'r canran sirol a chenedlaethol. Mae'r ysgol yn datgan bod yr ardal lle y'i lleolir yn un o dan anfantais economaidd bellach ac mae hyn yn wahanol i'r tro diwethaf yr arolygwyd yr ysgol. Mae tua 37% o'r disgyblion yn derbyn cymorth anghenion addysg ychwanegol ac mae hyn yn sylweddol uwch na'r ffigwr cenedlaethol (21.2%). Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion ychwanegol. Ni chofnodwyd unrhyw waharddiadau parhaol na thros dro yn y flwyddyn cyn yr arolygiad.

Mae newid sylweddol wedi bod yn staffio'r ysgol ers yr arolygiad diwethaf. Apwyntiwyd y pennaeth i'w swydd barhaol yn Medi 2010 ac apwyntiwyd dau athro arall ers Medi 2010.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llanarth yn 2011-2012 yn £3,211 y disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ceredigion yw £8,706 a'r lleiafswm yw £2,987. Mae Ysgol Gynradd Llanarth yn safle 53ain o'r 60 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod perfformiad yr ysgol yn cymharu'n dda â pherfformiad ysgolion tebyg a chyrhaeddiad blaenorol disgyblion;
- bod perfformiad disgyblion 11 oed o ran cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg a mathemateg a gwyddoniaeth wedi gwella'n gyson dros bedair blynedd;
- bod bron pob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn frwdfrydig ac awyddus i ddysgu;
- bod profiadau cyfoethog ac ysgogol yn cael eu darparu ar draws yr ysgol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd tu fewn a thu allan i'r dosbarth; a
- bod ansawdd yr addysgu yn gyson dda neu'n well.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth wedi llwyddo i greu gweledigaeth effeithiol sydd wedi arwain at godi safonau a gwella'r ddarpariaeth tros y ddwy flynedd ddiwethaf;
- ethos gofalgar, hapus a diogel yn bodoli o fewn yr ysgol;
- data yn cael ei ddadansoddi yn drwyadl er mwyn monitro perfformiad a bod y llywodraethwyr yn ymwybodol o sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu â'r teulu o ysgolion;
- y broses hunan arfarnu wedi gwreiddio ym mywyd yr ysgol a bod yr arweinwyr yn adnabod eu hysgol yn dda; a
- bod yr ysgol wedi ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol yn dda.

## Argymhellion

A1 parhau gyda'r ffocws ar godi safonau llythrennedd a datrys problemau;

A2 lleihau'r gagendor rhwng y bechgyn a merched hŷn;

A3 sicrhau cysondeb marcio ar draws yr ysgol;

A4 ysgrifennu adroddiadau hunanarfarnu'r ysgol yn fwy arfarnol a gwahaniaethu'n briodol rhwng materion yn ymwneud â safonau a materion yn ymwneud â darpariaeth;

A5 datblygu rôl strategol y llywodraethwyr er mwyn eu galluogi i weithredu yn fwy cadarn fel cyfeillion beirniadol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn cyrraedd yr ysgol gyda medrau cymdeithasol, ieithyddol a mathemategol cymharol isel. Pan fo disgyblion yn gadael y Cyfnod Sylfaen mae eu cyflawniad yn dda iawn o'i gymharu â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio di-dâl. Mae'r data hefyd yn dangos cynnydd da tros y ddwy flynedd ddiwethaf ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 o ran cymhariaeth â'r ysgolion hyn. Yn ogystal, mae'r ysgol yn perfformio'n well na chyfartaledd y teulu o ysgolion y perthyn yr ysgol iddi yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2.

Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod y gwersi gyda bron pob disgybl yn gwneud hyn yn y Cyfnod Sylfaen. Ym mhob dosbarth ar draws yr ysgol, mae bron pob disgybl yn canolbwyntio'n dda yn y gwersi ac yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn effeithiol. Datblygant eu medrau ymchwiliol yn briodol i ganfod gwybodaeth newydd ond nid yw eu medrau datrys problemau wedi datblygu i'r un graddau. Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol a gallant weithio'n effeithiol mewn parau, grŵp neu fel unigolyn i ymateb i dasg yn dda.

Yng nghyfnod allweddol dau, mae medrau siarad a gwrando yn gyson dda. Mae medrau darllen ac ysgrifennu ar y cyfan yn datblygu'n briodol gyda llawer yn darllen yn dda. Nid yw eu medrau ysgrifennu estynedig wedi datblygu i'r un graddau.

Mae medrau Cymraeg y disgyblion yn datblygu'n dda erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen a hynny yn aml o fan cychwyn isel. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn deall ac yn ymateb yn gywir i amrywiaeth dda o gwestiynau a chyfarwyddiadau syml. Mae llawer yn darllen yn dda ac yn paratoi darnau ysgrifenedig cywir yn ôl eu hoed a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'r iaith lafar yn rhugl ac yn effeithiol ar bob math o achlysur, ffurfiol ac anffurfiol.

Mae'r canran fydd yn gadael yr ysgol i fynd i'r ysgol uwchradd ag oed darllen yn fwy na chwe mis yn is na'u hoed yn well na'r canran (40%) y cyfeirir ato yn adroddiad blynyddol cyfredol HMCI.

Yn gyffredinol, mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn targedau yn eu cynlluniau addysg unigol. Mae bron pob un sy'n derbyn cymorth trwy raglenni ymyrraeth yn gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl.

Nid oes gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 o ran cyrraedd y deilliant disgwyliedig. Nid yw hyn yn wir ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 am y pedair mlynedd ddiwethaf. Yma mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn y Gymraeg a Saesneg yn sylweddol fwy na'r teulu a Chymru.

Mae'r canrannau o ddisgyblion ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen sy'n ennill y lefelau uwch yn well na'r teulu o ran datblygiad mathemategol ac yn sylweddol felly o ran

datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Mae'r canrannau o ran datblygiad medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg yn is na'r teulu. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 roedd y canrannau yn uwch na'r teulu a Chymru ym mhob pwnc ond y Gymraeg.

**Lles: Da**

Mae gan y disgyblion agweddau cadarnhaol iawn tuag at gadw'n iach a dealltwriaeth dda o bwysigrwydd ymarfer corfforol a bwyta'n iach. Mae llawer o'r disgyblion yn mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau ar ôl ysgol ac yn aelodau o dimau chwaraeon llwyddiannus yr ysgol.

Mae bron pob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac maent yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Mae'r holl ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch a gofal at eraill. Ar draws yr ysgol mae disgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldebau amrywiol yn dda ymhob dosbarth. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio'n dda fel unigolion ac mewn parau gan ddangos dyfalbarhad.

Caiff llais y disgybl le priodol iawn yn y cyngor ysgol ac mae hwn yn gyfrwng mae'r disgyblion yn ei ddefnyddio'n dda i gynnig newidiadau i fywyd yr ysgol. Cred aelodau'r cyngor fod staff a llywodraethwyr yn gwrando ar eu barn ac yn gweithredu arni.

Dros y pum mlynedd diwethaf mae'r canran presenoldeb wedi bod yn gyson dda ac mae'n cymharu'n ffafriol gydag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau bod gan y disgyblion fynediad i gwricwlwm eang a chytbwys, sy'n cwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Darperir profiadau cyfoethog ac ysgogol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Adeiladir ar hyn yn llwyddiannus yng nghyfnod allweddol 2.

Mae cynllunio byr dymor yr athrawon a'r cynorthwywyr yn drylwyr ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac mae'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol yn dda. O ganlyniad i hyn mae'r ymdrech i godi safonau mewn llythrennedd wedi cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad a chyflawniad. Fodd bynnag, nid yw disgyblion hŷn yn cael digon o gyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig. Rhoddir sylw da i ddatblygu medrau creadigol a medrau meddwl ar draws y cwricwlwm ond nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau datrys problemau wedi datblygu i'r un graddau.

Mae ystod eang o weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau amrywiol yn cyfoethogi'r dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn datblygu'n dda ac mae'r hyn a gynigir yn y Cyfnod Sylfaen yn gosod seiliau cadarn ar gyfer datblygu medrau iaith y disgyblion

ymhellach. Mae'r staff i gyd yn cynnig modelau iaith da iawn. Caiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r dimensiwn Cymreig ei datblygu'n effeithiol trwy'r ysgol.

Trwy weithgareddau trawsgwricwlaidd caiff y disgyblion brofiadau sydd yn hybu eu dealltwriaeth o fyw yn gynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang. Mae'r ysgol yn sicrhau y daw disgyblion yn gyfarwydd ag amgylchiadau a thraddodiadau gwahanol wledydd. Mae'r bartneriaeth ddiweddar gydag ysgol ym Malawi, a chroesawu ymwelydd o'r wlad i'r ysgol, wedi cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda neu'n well. Ceir perthynas waith dda rhwng athrawon a disgyblion. Mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda ac yn cynllunio gwersi a gweithgareddau diddorol sy'n ennyn ymrwymiad y disgyblion yn effeithiol.

Mae aelodau'r staff yn deall anghenion eu disgyblion yn dda a defnyddir ystod o ddulliau amrywiol i ymateb i wahanol alluoedd o fewn y dosbarthiadau. Mae athrawon yn gwneud defnydd priodol o adnoddau. Serch hynny, gwneir gorddefnydd o daflenni gwaith drwy'r ysgol, yn enwedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae cynorthwywyr dosbarth yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd dysgu'r disgyblion. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'r athrawon er mwyn asesu cynnydd y disgyblion. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n dda. Mae'r staff yn sicrhau bod disgyblion yn chwarae rhan weithredol yn y broses o osod targedau a gwerthuso eu cynnydd eu hunain. Rhoddir adborth llafar effeithiol yn ystod gwersi. Serch hynny, nid yw'r sylwadau marcio yn nodi'r ffyrdd ymlaen yn ddigon cyson.

Diweddarir cofnodion asesu yn rheolaidd ac fe defnyddir system dracio effeithiol i fonitro cynnydd ac i lywio cynllunio. Mae'r trefniadau i ddarparu gwybodaeth i rieni am gynnydd a datblygiad y disgyblion yn dda.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Darperir nifer o weithgareddau o fewn y dosbarth ac yn allgyrsiol i hybu disgyblion i fod yn iach. Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion yn dda iawn gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol a moesol. Caiff y disgyblion gyfle i fod yn rhan bwysig o'r gymuned leol, ac i fagu agwedd ofalgar at eraill, trwy weithgareddau elusennol a diwylliannol.

Mae'r ysgol yn cysylltu â nifer o asiantaethau arbenigol allanol ac mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at les y disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth effeithiol ac ymarferol iawn i hybu presenoldeb. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r gefnogaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder yn yr ysgol. Caiff anghenion dysgu'r disgyblion eu hadnabod yn fuan iawn gan yr athrawon a rhoddir rhaglenni unigol pwrpasol ar waith. Cynhelir adolygiadau

cynnydd, sy'n cynnwys rhieni a disgyblion fel rhan o'r broses, yn rheolaidd. Gwneir defnydd effeithiol iawn o gynorthwywyr ac asiantaethau i ateb gofynion penodol disgyblion a hybu eu datblygiad.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae amgylchedd ffisegol yr ysgol yn cynnig awyrgylch diogel iawn ac ysgogol sydd yn hybu profiadau dysgu yr holl ddisgyblion. Un o gryfderau'r ysgol yw'r ethos ofalgar a chynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal a'r gallu i werthfawrogi amrywiaeth. Mae'r cwricwlwm yn hygyrch i bob disgybl, ac mae systemau cadarn yn sicrhau ymddygiad da iawn ar draws yr ysgol.

Gwneir defnydd da o'r gwagleoedd o fewn y dosbarthiadau a gwelir arddangosfeydd lliwgar o safon uchel ar furiau'r dosbarthiadau a'r coridorau. Mae'r arddangosfeydd yn rhoi cyfle i'r disgyblion ymfalchïo yn eu cyflawniadau ac yn hybu dysgu symbylus a chyfoethog. Mae amrywiaeth o ardaloedd allanol yn rhoi cyfle arbennig i'r disgyblion brofi gwahanol amgylcheddau dysgu sy'n cyfoethogi eu profiadau. Mae adnoddau digonol o fewn yr ysgol a gwneir defnydd da ohonynt.

Mae'r gwaith diweddar ar amgylchedd ffisegol yr ysgol wedi sicrhau bod yr adnoddau yn gweddu'n dda i anghenion y disgyblion. Serch hynny, nid oes toiledau yn yr adeilad newydd ac nid yw prif adeilad yr ysgol yn hygyrch i unigolion ag anableddau corfforol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad effeithiol a phwrpasol i'r ysgol. Mae hyn, ynghyd â gweledigaeth glir, yn rhoi cyfeiriad strategol clir i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae yna ffocws pwrpasol o fewn y strategaeth ar wella safonau a darpariaeth ar gyfer dysgwyr. Llwyddwyd i greu tîm o staff sy'n cydweithio'n dda ac mae hyn yn dylanwadu'n bositif ar gyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae gan yr holl staff gyfrifoldebau a disgrifiadau swyddi clir ac maent yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri. Cefnogir eu datblygiad proffesiynol parhaus trwy system effeithiol o reoli perfformiad sy'n cadarnhau'r ffocws ar godi safonau. Mae'r holl staff yn elwa o drefniadau hyfforddi mewnol sy'n gwneud defnydd da o arbenigedd o fewn yr ysgol.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethol ymwybyddiaeth briodol o sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu â pherfformiad disgyblion o fewn teulu'r ysgol. Rhoddant gefnogaeth gref i'r ysgol ac mae rôl y corff fel ffrind beirniadol yn datblygu. Mae'r llywodraethwyr hefyd wedi derbyn cyfrifoldebau pynciol a dechrau arsylwi gwersi. Mae hyn wedi dyfnhau eu hadnabyddiaeth o'r ysgol a'u gallu i herio. Gwneir defnydd da o arbenigedd aelodau'r corff, er enghraifft, ym maes iechyd a diogelwch a diogelu'r safle.

Mae blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn datblygu'n briodol yn yr ysgol, yn arbennig felly y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae prosesau hunanarfarnu yn datblygu yn dda ac yn rhan naturiol o fywyd yr ysgol. Mae arweinwyr pwnc yn paratoi adroddiadau yn dda gan ystyried ystod o dystiolaeth. Sicrheir bod barn y staff, rhieni, disgyblion a llywodraethwyr yn cael ei hystyried yn ofalus. Dadansoddir holiaduron rhanddeiliaid yn drylwyr a gweithredir ar y canfyddiadau.

Ar y cyfan, mae'r adroddiad hunanarfarnu o ansawdd da. Mae'n adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu yn gywir ac mae'r arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda. Serch hynny, mae tuedd yn yr adroddiad i fod yn or-ddisgrifiadol ac nid yw bob amser yn gwahaniaethu'n briodol rhwng materion yn ymwneud â safonau disgyblion a rhai yn ymwneud â'r hyn y mae'r ysgol yn ei ddarparu.

Gwelir cysylltiad amlwg rhwng yr hunanarfarnu a'r cynllun datblygu. Mae'r cynllun yn cynnwys y penawdau angenrheidiol, yn canolbwyntio ar godi safonau ac yn rhoi cyfeiriad clir i'r ysgol.

Datblygir diwylliant o gydweithio fel tîm yn dda. Mae hyn yn helpu'r ysgol dyfu fel cymuned ddysgu effeithiol. Mae athrawon yn rhannu arfer dda gyda eraill ar draws yr ysgol a'r clwstwr. Mae hyn yn datblygu a chefnogi staff mewn meysydd penodol, er enghraifft defnyddio strategaethau lles a strategaethau llythrennedd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r rhieni yn dda. Mae cysylltiadau agos â'r gymuned yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Daw aelodau o'r gymuned i mewn i'r ysgol i ddangos i'r disgyblion sut i wau ac mae hyn yn meithrin parch at oedolion a datblygu medrau. Datblygir y berthynas â'r gymuned ymhellach trwy i'r disgyblion gynnig hyfforddiant i oedolion o bob oedran ar ddefnyddio cyfrifiaduron ar ffurf Caffi Cyber. Mae hyn yn hyrwyddo'r syniad o addysg gydol oes yn dda.

Mae'r ysgol ynghlwm â nifer o gymunedau dysgu proffesiynol sy'n cael effaith gadarnhaol ar godi safonau. Enghraifft dda o hyn yw'r prosiect gydag ysgolion eraill i wella sillafu ym mlwyddyn 3 a 4. Yn ogystal, mae'r ysgol wedi cydweithio gyda'r awdurdod lleol i ddefnyddio arbenigedd yr ysgol i gynnal nifer o gyrsiau i athrawon o fewn y sir.

Mae'r cyswllt gyda'r Cylch Meithrin sy'n bwydo'r ysgol yn dda ac yn hwyluso trosglwyddiad esmwyth y plant. Mae trefniadau effeithiol hefyd yn eu lle ar gyfer trosglwyddo disgyblion i'r ysgol gyfun leol. Mae'r trefniadau hyn yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn manteisio ar bartneriaeth effeithiol gyda gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol ar gyfer datblygu staff a chodi safonau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae lefelau staffio'r ysgol yn hael ac yn sicrhau safonau da. Mae trefniadau priodol ar gyfer sicrhau amser i athrawon gynllunio, paratoi ac asesu. Rhoddir amser di-gyswllt ychwanegol i athrawon ar gyfer monitro pynciau.

Mae'r ysgol yn defnyddio ei hadeiladau a’i hadnoddau yn dda iawn.  Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch yn drylwyr.  Mae'r pennaeth a phwyllgor cyllid y corff llywodraethol yn monitro cyllideb yr ysgol yn effeithiol.  Mae cyswllt da rhwng gwariant a’r blaenoriaethau a nodwyd gan yr ysgol trwy ei hunanarfarnu.

O ganlyniad i’r  safonau da a gyflawnir gan ddisgyblion â'r nifer o gryfderau yn ansawdd y ddarpariaeth mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn cyrraedd yr ysgol gyda medrau cymdeithasol, ieithyddol a mathemategol is na chyfartaledd y sir.

O'i gymharu â lefelau perfformiad ysgolion sydd â chanran tebyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae cyrhaeddiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen mewn perthynas â'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliannau disgwyliedig ym mhob maes astudio) yn y 25% uchaf o ysgolion. Bu i 100% o'r disgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (Deilliant 5) ym mhob maes astudio. O ganlyniad, perfformiodd yr ysgol yn well na'r teulu o ysgolion y perthyn iddi. Mae hyn hefyd yn uwch na'r disgwyl yn seiliedig ar lefel her yr ysgol.

Mae deilliannau disgyblion 11 oed ym mhob pwnc yn cymharu'n ffafriol â ysgolion eraill ar sail disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2012. Yn gyffredinol, mae'r data yn dangos cynnydd da tros y ddwy flynedd ddiwethaf. Tros bedair blynedd cododd y canran o ddisgyblion a gyrhaeddodd y dangosydd pynciau craidd (canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y pynciau) o'r 25% isaf o ysgolion i'r 50% uchaf.

Mae data diwedd cyfnod allweddol 2 yn 2012 yn dangos bod yr ysgol yn perfformio yn is na chyfartaledd y teulu o ran cyrraedd y dangosydd pynciau craidd a Saesneg. Mae pob pwnc arall yn uwch na'r teulu. Yr ysgol sydd â'r lefel o her fwyaf o fewn y teulu ac yn 2012 roedd y canlyniadau i gyd yn uwch na'r disgwyl. Dengys y canlyniadau gynnydd pendant ar yr hyn yr oeddent bedair mlynedd yn ôl gyda'r cynnydd mwyaf yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg mewn cyfuniad yn wedi cynyddu. Mae'r ysgol bellach yn perfformio'n well na'r teulu a Chymru am y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae'r canran fydd yn gadael yr ysgol i fynd i'r ysgol uwchradd ag oed darllen yn fwy na chwech mis yn is na'u hoed yn well na'r canran (40%) y cyfeirir ato yn adroddiad blynyddol cyfredol PAEM.

Yn 2012, mae deilliannau disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cymharu'n ffafriol iawn gyda'r teulu a Chymru gan ddangos cynnydd da ar y flwyddyn flaenorol. Nid oes patrwm pendant tros bedair blynedd.

Mae'r canrannau o ddisgyblion ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen sy'n ennill y lefelau uwch yn well na'r teulu o ran datblygiad mathemategol ac yn sylweddol felly o ran datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Mae'r canrannau o ran datblygiad medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg yn is na'r teulu. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, roedd y canrannau yn uwch na'r teulu a Chymru ym mhob pwnc ond y Gymraeg. Mae'r patrwm hyn wedi bodoli am dair o'r pedair mlynedd ddiwethaf.

Nid oes gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 o ran cyrraedd y deilliant disgwyliedig. Nid yw hyn yn wir ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Yma yn 2012 mae'r bwlch rhwng y rhywiau o ran cyrraedd y dangosydd pynciau craidd, a lefel 4 yn y Gymraeg a Saesneg, yn sylweddol fwy na'r teulu a Chymru. Mae'r merched wedi perfformio'n well na bechgyn yn gyson dros bedair blynedd diwethaf yn y meysydd hyn ac mae'r gagendor rhyngddynt yn cynyddu. Nid oes gwahaniaeth rhwng y rhywiau o ran cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd 25 o ymatebion i'r holiaduron gan rieni ac roeddent yn unfrydol:

- bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn cael cymorth i ymgartrefu'n dda;
- bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol;
- bod y staff yn disgwyl i'r plant weithio'n galed ac i wneud eu gorau;
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau;
- yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda;

Mae bron pob un yn credu:

- bod yr addysgu'n dda;
- bod yr ysgol yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol;
- bod plant yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol;
- eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant;
- bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- bod yr ysgol yn helpu'r plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb; a
- bod eu plant wedi eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf; ac yn
- fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.

Mae'r rhan fwyaf yn credu:

- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- bod y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn a ddysgir yn yr ysgol; ac yn
- teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 35 o ymatebion gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ac mae pob un yn cytuno neu'n cytuno'n gryf:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio;
- eu bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd;
- bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- bod gwaith cartref yn helpu iddynt ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach;
- bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd;
- bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio;
- bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith;
- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith; a
- bod plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| Terry Williams | Arolygydd Tîm |
| Ruth Rhydderch | Arolygydd Lleyg |
| Delyth Kirkman | Arolygydd Cymheiriaid |
| Angharad John | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad i holl rieni’r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai’r ysgol anfon copi o’r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae’r adroddiad data i’w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â’r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.  Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion.  Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.